

bwletin

gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 242 (Cymru) – 20 Mehefin 2019

Etholiad Senedd Ewrop: nodyn atgoffa i gasglu adborth a data ar ôl yr etholiad

Fel y nodir ym [Mwletin 241](#), hoffem glywed am eich profiadau o weinyddu Etholiad Senedd Ewrop Mai 2019. Bydd hyn, nid yn unig yn llywio ein hadroddiadau ar ôl pob etholiad, ond bydd hefyd yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn eich cefnogi er mwyn cynnal etholiadau effeithiol yn y dyfodol. Gallwch roi eich adborth drwy gwblhau [ein harolwg](#). Byddwch cystal â rhoi unrhyw adborth erbyn dydd Gwener 28 Mehefin 2019.

Roedd [Bwletin 241](#) hefyd yn cynnwys dolenni i'r [ffurflenni](#) a'r [canllawiau](#) ategol ar gyfer cyflwyno data yn dilyn etholiad Senedd Ewrop. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, dylech hefyd ddychwelyd y ffurflenni hyn i research@electoralcommission.org.uk erbyn dydd lau 27 Mehefin 2019.

Cofrestru etholiadol: diweddariad ar y canllawiau

Rydym wedi diweddaru ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol erbyn hyn er mwyn adlewyrchu amgylchiadau penodol canfas 2019 ac i gyfeirio at ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Brawf Data Diwygio'r Canfas. Mae'r gyfres lawn o ganllawiau craidd ar gael ar [ein gwefan](#), ac mae [Rhan 3](#) yn cynnwys canllawiau ar reoli'r canfas.

Diwygio'r canfas: Arolwg Swyddfa'r Cabinet

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet ei chylchlythyr cyntaf am ddiwygio'r canfas a oedd yn cynnwys dolen i [ail ran ei harolwg o anghenion hyfforddiant a galluedd](#). Nod yr arolwg yw helpu Swyddfa'r Cabinet i ddeall pa mor hyderus yw Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u timau mewn perthynas â rhoi elfennau newydd o broses y canfas blynyddol ar waith. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych hefyd yn helpu i lywio'r ffordd y bydd Swyddfa'r Cabinet yn datblygu ei chynlluniau hyfforddi er

Y

Comisiwn

Etholiadol

Cynnwys

Etholiad Senedd Ewrop: nodyn atgoffa i gasglu adborth a data ar ôl yr etholiad

Nodyn i'ch atgoffa am sut y gallwch roi adborth a chyflwyno data yn dilyn etholiad Senedd Ewrop.

Cofrestru etholiadol: diweddariad ar y canllawiau

Gwybodaeth am ein canllawiau diwygiedig ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol a dolenni iddynt.

Diwygio'r canfas: Arolwg Swyddfa'r Cabinet

Gwybodaeth am arolwg ac amrywiaeth o ddogfennau am ddiwygio'r canfas a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a dolenni iddynt.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd, ac maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol](#).

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiado.l.org.uk

mwyn cefnogi'r broses o ddiwygio'r canfas.

Os nad ydych wedi cwblhau'r arolwg eto, mae Swyddfa'r Cabinet wedi gofyn i chi wneud hynny erbyn dydd Gwener 28 Ebrill.

Yn ogystal â hyn, roedd y cylchlythyr hefyd yn cynnwys dolenni i ddwy ddogfen newydd a luniwyd gan Swyddfa'r Cabinet i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol â'r broses o gynnal profion data. Gellir cael gafael arnynt drwy ddilyn y dolenni canlynol:

- [Taflen gymorth ar gyfer Llwybr 3](#)
- [Taflen gymorth ar gyfer ychwanegiadau diweddar ac etholwyr a benodwyd](#)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r cylchlythyr, yr arolwg neu'r taflenni cymorth, cysylltwch â canvass-reform@cabinetoffice.gov.uk.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
gwytodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk
(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cymru/privacy-notice>)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.